

Hafan
Pori
Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd
Chwiliad testun rhydd

English

PDF Argraffu Cyfeirnod

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

RHYDDERCH AB IEUAN LLWYD (c. 1325 - cyn 1399?), cyfreithiwr a noddwr llenyddol

Enw: Rhydderch ab Ieuan Llwyd

Dyddiad geni: c. 1325

Dyddiad marw: cyn 1399?

Priod: Anne ferch Gwilym ap Phylip ab Elidir

Priod: Mawd Clement

Priod: Marged ferch Gruffydd Gryg ab Ieuan Fychan

Plentyn: Guto ap Rhydderch ap Ieuan Llwyd

Plentyn: Tanglwt ferch Rhydderch ab Ieuan Llwyd

Plentyn: Ieuan ap Rhydderch ap Ieuan Llwyd

Rhiant: Angharad Hael

Rhiant: Ieuan Llwyd ab Ieuan ap Gruffydd Foel

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cyfreithiwr a noddwr llenyddol

Maes gweithgaredd: Cyfraith; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: John K. Bollard

Roedd Rhydderch yn fab i Ieuan Llwyd ab Ieuan ap Gruffydd Foel o Lyn Aeron ger Llangeitho ac Angharad Hael merch Rhisiart ab Einion o Fuellt, ac yn ddisgynydd o linach frenhinol Ceredigion a thrwy ei fam-gu a'i orhenfam o **Rys ap Gruffydd** (bu farw 1197), Arglwydd Deheubarth a phen-noddwr Abaty Ystrad Fflur. Roedd y teulu yn noddwyr blaenllaw i'r beirdd, ac fe gomisiynodd Gruffydd ac Efa, plant Maredudd ab Owain (bu farw 1265), gorwyr **Rhys ap Gruffydd** a gorphendaidd Rhydderch, gyfieithiadau Cymraeg o dri thestun rhyddiaith crefyddol a seciwlar o Ladin a Hen Ffrangeg, testunau a gopiwyd yn ddiweddarach yn **Llyfr Gwyn Rhydderch**. Ymddengys fod Ieuan Llwyd, ei fab Rhydderch, ac efallai ei wŷr **Ieuan ap Rhydderch**, hefyd yn berchen ar **Lawysgrif Hendregadredd**, casgliad amhrisiadwy o waith Beirdd y Tywysogion yr ysgrifennwyd y rhan fwyaf ohono yn Ystrad Fflur tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg a dechrau'r bedwaredd ar ddeg. Y mae ynddi chwe cherdd i Faredudd ab Owain gan **Y Prydydd Bychan**, dwy awdl gan **Lywelyn Brydydd Hoddnant** i Ieuan ap Gruffydd Foel a'i wraig Ellylw (neu Elliw), dwy gerdd gan Hillyn i Ieuan Llwyd (ac englynion dienw eraill i ryw Ieuan amhenodol), ac awdl farwnad i'w wraig Angharad gan **Ddafydd ap Gwilym**.

Roedd Rhydderch yn hyddysg yng Nghyfraith Hywel Dda, a chyflawnodd swyddogaeth dosbarthwr neu legis peritus rhwng 1380 a 1392 yn gwrando apeliadau ac yn adfarnu camfarnau, gyda gwaith cyfreithiol arall. Gyda'i wybodaeth am y gyfraith Seisnig hefyd, gweithredodd fel cwnstabl a bedel Mabwynion ac fel ystiward a dirprwy ynad Ceredigion. Mae'n debygol y medrai Rhydderch bob un o'r pedair iaith a ddefnyddid yn llysoedd y cyfnod: Cymraeg, Lladin, Saesneg, a Ffrangeg. Yn ei farwnad i Rydderch dywed **Gruffydd Llwyd** ei fod yn cyflwyno 'cyfraith trwy bob iaith o'i ben', ac fe'i disgrifir gan **Ddafydd ap Gwilym** fel 'cyweithas ieithydd', a chan **Ddafydd y Coed** fel 'pab geirserch pob gorsedd'.

Daw llawer o'n gwybodaeth am gymeriad Rhydderch a'i yrfa o'r cerddi a ganwyd iddo. Efallai mor gynnar â'r 1340au canodd **Dafydd ap Gwilym** ffug-farwnad iddo yn dathlu ei gyfeillgarwch agos â'i gyfyrdwr Llywelyn Fychan ap Llywelyn Goch ap Llywelyn Gapan, a cheir awdl i'r ddau gyfaill gan **Lywelyn Goch ap Meurig Hen** hefyd. Yn ei ddisgrifiad o gylch barddol yn y de-orllewin, sonia **Iolo Goch** am 'annerch Rhydderch rhoddiad / Ab Ieuan Llwyd', a diau i **Iolo** ganu cerddi eraill iddo nas diogelwyd. Mae'r awdl iddo gan **Ddafydd y Coed** yn ei gyffelybu i Selyf oherwydd ei ddoethineb, a hefyd i gymeriadau chwedlonol fel **Arthur**, Cai, Caw, Garwy Hir, Meirion, Bedwyr, Llŷr, Geraint, a'r arwr Ffreging Rholant, gan adlewyrchu diddordeb Rhydderch yn y rhyddiaith Gymraeg a gedwir yn y llawysgrif enwog sy'n dwyn ei enw.

Tua chanol y bedwaredd ganrif ar ddeg, comisiynodd Rhydderch ysgrifenyddion Ystrad Fflur, mae'n debyg, i greu'r casgliad o chwedlau a thestunau rhyddiaith eraill a adwaenid erbyn yr unfed ganrif a bymtheg, ac efallai yn gynharach, fel **Llyfr Gwyn Rhydderch**. Ceir ynddo y testunau cyflawn cynharaf o Bedair Cainc y Mabinogi, Culhwch ac Olwen a phum chwedl arall y 'Mabinogion', ynghyd â thestunau crefyddol poblogaidd, bucheddau saint, chwedlau Siarlymaen, peth o'r hengerdd a Thrioedd Ynys Prydain. Cedwir y llawysgrif, mewn dwy ran, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel **Peniarth MS 4** a **Peniarth MS 5**.

Yn ôl yr achau, cafodd Rhydderch saith mab a phum merch gyda'i ddwy wraig, Margred (neu Angharad) merch Gruffydd Gryg ab Ieuan Fychan a Mawd merch Syr William Clement, arglwydd Tregaron, ac un mab gordderch, Guto, yn ogystal. Yn ôl **Bartrum** (Cydifor ap Gweithfoed 3) a **Lewys Dwnn** (t. 45), mab Rhydderch a Mawd oedd y prydydd **Ieuan ap Rhydderch**, ond mewn lle arall dywed **Dwnn** (t. 28) mai Annes merch Gwilym ap Ffyllib o Forgannwg 'a briododd Rydderch ab Ieuan Lloyd, Esgwier, a mam Ieuan ap Rydderch y Prydydd oedd hono.' Efallai fod trydedd briodas, felly.

Preswylodd Ieuan ap Gruffydd Foel, Ieuan Llwyd, a Rhydderch mewn tŷ o'r enw Glyn Aeron yng nghyffiniau cymydau Mabwynion a Phennardd, tua deng milltir o Abaty Ystrad Fflur, lle claddwyd mwy na deuddeg o'u cyndeidiau. Nid yw'r lleoliad manwl yn hysbys, ond mae'n bosibl bod Glyn Aeron yn agos i Lyn-ucha neu Lyn-isa ger Llangeitho. Yn ddiweddarach bu'r teulu'n byw ym Mharchrhydderch. Yr oedd tŷ ôl-ganoloesol o'r enw hwnnw yn sefyll milltir a hanner i'r de-orllewin o Langeitho yn yr 1890au, lle mae fferm Parc Rhydderch heddiw.

Awdur

John K. Bollard

Ffynonellau

P. C. Bartrum, Bledydd Owen Huws, **Prosiect Bartrum/Bartrum Project** (Cydifor ap Gweithfoed 2, 3)

Dafydd J. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg', *LIĀ'n Cymru* 17-18 (1993), 60-107

R. Iestyn Daniel, *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest* (Aberystwyth 2002)

Lewys Dwnn, S. R. Meyrick (gol.), *Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms* (Llandoverly 1846), i

Ralph A. Griffiths, *The Principality of Wales in the later Middle Ages: The Structure and Personnel of Government I. South Wales, 1277-1536* (Cardiff 1972), 117

R. Geraint Gruffydd, 'Dafydd ap Gwilym and his Patrons in Ceredigion', *Ceredigion*, 15.4 (2008), 35-51

Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff 2000)

Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Gruffydd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill* (Aberystwyth 2000)

Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd 1988)

Dafydd Johnston (gol.), *Cerddi Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd 2010)

Ann Parry Owen (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill* (Aberystwyth 1996)

Coffein: **National Monuments Record of Wales database**

Llïnos B. Smith, "'Cannwyll Disbwyll a Dosbarth": Gwŷr Cyfraith Ceredigion yn yr Oesoedd Canol Diweddar', *Ceredigion*, 10 (1986), 229-53

Darllen Pellach

Llyfr Gwyn Rhydderch

Dafydd ap Gwilym.net

Oxford Dictionary of National Biography: Rhydderch ab Ieuan Llwyd

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: Peniarth MS 4: Llyfr Gwyn Rhydderch

Archifau LIGC: Peniarth MS 5: Llyfr Gwyn Rhydderch

Wikidata: Q18530730

Dyddiad cyhoeddi: 2019-02-12

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Yfrannu

Arddull APA

x

Bollard, J. K., (2019). RHYDDERCH AB IEUAN LLWYD (c. 1325 - cyn 1399?), cyfreithiwr a noddwr llenyddol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c12-RHYD-API-1430>

Yfrannu

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Wedi'i parhannu gan
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government